OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2010 No. 481

# Gorchymyn Awdurdodau Tân ac Achub (Cynlluniau Gwella) (Cymru) 2010

**Enwi, cychwyn, dehongli a chymhwyso**

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Awdurdodau Tân ac Achub (Cynlluniau Gwella) (Cymru) 2010 a daw i rym ar 1 Ebrill 2010.

(2) Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "blwyddyn ariannol" ("*financial year*") yw cyfnod o 12 mis sy'n dechrau ar 1 Ebrill;

ystyr "cynllun gwella" ("*improvement plan*") yw cynllun perfformiad o fewn ystyr adran 15(6) o'r Mesur; ac

ystyr "y Mesur" ("*the Measure*") yw Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

(3) Dim ond i awdurdodau gwella Cymreig sy'n awdurdodau tân ac achub yng Nghymru, wedi'u cyfansoddi gan gynllun o dan adran 2 o'r Ddeddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004(**1**) neu gynllun y mae adran 4 o'r Ddeddf honno'n gymwys iddo y mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys.

(**1**) 2004 p.21.